

DOLEN Y TAB – 23

25–26 Medi 2020

****OEDFA'R TABERNAACL 27 MEDI****

Y Parchg. Gethin Rhys fydd yn arwain y myfyrdod fore Sul. Ceir cyfraniadau gan Wyn Rees, Gwenfil Thomas ac Elain Llwyd Davies, ynghyd ag ychydig help technegol gan Emlyn Davies. Cawn forio canu yn ein cartrefi yng nghwmni Côr CF1 a Chôr Gwaelod y Garth.

OEDFAON MIS HYDREF

4 Hydref

Pentref Creigiau.

11 Hydref

Oedfa Diolchgarwch yng ngofal Huw, Beth a Wendy.

18 Hydref

Oedfa Deuluol.

25 Hydref

Y Parchg. Gethin Rhys.

Cofiwch hefyd y Sul yma am . . .

10.30 ymlaen

Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg Yng ngofal Emlyn Davies, Pentyrch.

Gwefan yr Undeb: annibynwyr.org a *You Tube*.

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Delyth Richards, Caerfyrddin.

12.30 Radio Cymru, *Bwrw Golwg* gyda John

Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru.

DYMUNIADAU GORAU

I **Ann Rees** sydd wedi dychwelyd adref ar ôl treulio rhai dyddiau yn yr ysbyty ym Merthyr Tudful. Brysiwch wella, Ann.

LLONGYFARCHIADAU I . . .

Nia Williams, Yr Hafod, Creigiau, fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ddydd lau 1^{af} o Hydref.

Eleri a Gwil ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ar 24 Medi ganwyd merch fach, Lyra, i Rhodri ac Emily, chwaer fach i Aria, Elis ac Osian, Elijah a Jasmine, ac mae pawb wedi gwirioni'n lân!

S.O.S. HUW M. YN GALW . . .

. . . ar holl aelodau'r capel, o bob oed!

Mae ar Huw M angen eich help, plis. Ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch eleni (11 Hydref) mae Huw yn awyddus i gyfansoddi cân, ond mae arno angen eich help i feddwl am y geiriau!

Fe hoffai Huw wybod beth sy'n eich gwneud yn ddiolchgar. I bwy, neu am beth, yr hoffech chi ddiolch? Mae'r cyfnod diweddar wedi gwneud i lawer ohonom sylweddoli pa mor bwysig yw diolch am yr hyn sydd gennym, felly dyma gyfle i roi hynny ar gân. Mae'r cynnig yn agored i bawb – yn blant ac oedolion.

Mae Huw yn awyddus i dderbyn unrhyw syniadau erbyn diwedd y mis (sef dydd Mercher nesaf, 30 Medi). Un cais bach . . . wrth sôn am yr hyn rydych yn ddiolchgar amdano, ceisiwch fod mor benodol â phosib – byddai hynny'n help mawr.

Anfonwch eich syniadau drwy e-bostio Huw (huwmm1@gmail.com), neu codwch y ffôn arno (01443 206010). Peidiwch â meddwl gormod am y peth – jest ewch amdani!

ELUSENNAU 2020

Y tro hwn rydym am dynnu sylw at yr ail o'r pedair elusen fydd yn rhannu'r swm a godir trwy gasgliad yr amlenni brown yn 2020, sef:

YSGOL TŶ COCH, TON-TEG

Mae Ysgol Tŷ Coch yn darparu addysg bwrpasol, berthnasol, bersonol i blant 3–19 oed sydd ag anawsterau dysgu dwys, a hynny mewn awyrgylch ddiogel, ofalgar sy'n eu hysgogi i gyrraedd eu potensial.

Bydd y casgliad yn dilyn yr un drefn â chasgliadau eraill eleni, sef:

Anfon siec yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf, gan nodi 'Elusennau 2020', at:

Mr Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU

neu trwy drosglwyddiad banc:

Cod didoli 30-96-72

Rhif cyfrif 03607499

gan gynnwys eich enw a nodi 'Elusennau 2020'.

DS Y tair elusen arall fydd yn rhannu'r casgliad fydd Gofalwyr Ifanc RhCT, Cymorth i Ferched Cymru a Cwtch.

AMSERAU DA, AMSERAU GWael

Dyma, o'i gyfieithu i'r Saesneg, oedd teitl llyfr dadlennol gan Syr Harold Evans yn cloriannu ei brofiadau fel golygydd y *Sunday Times* rhwng 1967 a 1981. Yn ystod yr wythnos hon cyhoeddwyd teyrngedau lu iddo yn dilyn y newyddion am ei farwolaeth yn 92 mlwydd oed. Caiff ei gydnabod bellach fel un o gewri'r byd newyddiadurol, a hynny ar sail ei gyfraniad arloesol ym maes newyddiaduraeth ymchwiliol (*investigative journalism*), fel lladmerydd cryf dros y gwirionedd, a'i ddewrder yn herio grymoedd y Sefydliad Prydeinig oedd yn awyddus i gelu'r gwirionedd ar faterion o bwys rhag y cyhoedd.

Ei lwyddiant mwyaf cofiadwy a phellgyrhaeddol, fodd bynnag, oedd yr un yn erbyn y cwmni fu'n gyfrifol am drychineb erchyll y cyffur Thalidomide. Dim ond wedi blynyddoedd o ymgyrchu gan y papur dan ei arweiniad ef y llwyddwyd i sicrhau iawndal teilwng i'r dioddefwyr a'u teuluoedd. Ond daeth ei ymgyrchu cyson yn erbyn polisïau Llywodraeth y dydd i ben ar ddechrau'r 1980au wedi i Rupert Murdoch, perchennog newydd y *Times* a'r *Sunday Times*, a'r Prif Weinidog Margaret Thatcher, ffurfio clymblaid gyfrinachol i roi taw ar ei allu i'w beirniadu.

Erbyn heddiw, rhaid i'r newyddiadurwyr a phawb arall sy'n credu'n angerddol mewn sicrhau cyfiawnder a chyhoeddi'r gwirionedd ar faterion o bwys wynebu cystadleuaeth toreth o gyfryngau torfol newydd wrth geisio dylanwadu ar bolisïau llywodraethau'r byd.

Dyma pam ei bod mor bwysig bod ein heglwysi'n manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo cyfiawnder. Ceir enghraifft dda iawn o hyn ar waith yr wythnos hon mewn datganiad a luniwyd gan Gyngor Eglwysi'r Byd ar sefyllfa druenus ffoaduriaid yn Ewrop. Mae'r datganiad wedi ei seilio ar egwyddorion Cristnogol o estyn croeso i estroniaid. Maent yn crefu ar i'r Undeb Ewropeaidd wrthod y disgwrs presennol a'r wleidyddiaeth o ofn, a chytuno i fabwysiadu safbwynt mwy tosturiol wedi ei seilio ar y gwerthoedd hynny oedd yn sail i sefydlu'r Undeb yn y lle cyntaf.

AILAGOR Y CAPEL

Diolch o galon i'r criw bychan ohonoch sydd eisoes wedi ymateb i'r holiadur a anfonwyd atoch mewn e-bost yn gynharach yn yr wythnos. Bydd eich atebion a'r sylwadau ychwanegol o gymorth mawr i'r Bwrdd wrth bwysu a mesur y camau nesaf yn eu paratoadau ar gyfer ailagor maes o law. I'r rhan fwyaf ohonoch, sydd heb ymateb hyd yn hyn, mae'n braf medru adrodd bod gennych bron i wythnos arall i'w ddychwelyd, gan mai **dydd lau 1 Hydref yw'r dyddiad cau swyddogol**. Un pwt o newyddion da i bawb yw bod modd cwblhau'r holiadur mewn llawer llai o amser na'r 5 munud a amcangyfrifwyd!

Os nad ydych eto wedi derbyn yr holiadur, neu wedi methu ei gwblhau, rhowch wybod trwy anfon neges i gyfrif e-bost y capel: capelytabernacl@gmail.com neu ffonio Gwilym ar 01443 225205.

OEDFAON AR-LEIN

Os oes unrhyw un yn barod i gymryd gofal am olygu oedfa, cysylltwch ag un o'r ddau isod:

Emlyn (emlyn.pentyrch@btinternet.com)
02920 891344, neu

Geraint (geraintrees@hotmail.com)
07816 341527.

Hefyd, os oes yna deulu neu unigolion fyddai'n hoffi cyfrannu at oedfa ar-lein, byddai Emlyn a Geraint yn falch o glywed gennych.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.*

Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.